# Cwestiynau Cyffredin y CV Naratif

Rydym wedi llunio'r rhestr hon o gwestiynau cyffredin er mwyn helpu i ymateb i rai o'r materion sy'n codi'n gyson ynglŷn ag ysgrifennu a gwerthuso'r CV Naratif. Gadewch i ni wybod pa gwestiynau yr hoffech eu hychwanegu at y rhestr.

1. Onid yw'r fformat hwn yn ffafrio'r rheiny sydd â Saesneg brodorol?
2. Onid dim ond brolio yw e?
3. Sut all y naratifau hyn fod mor wrthrychol â CV traddodiadol?
4. Sut mae disgwyl i uwch academyddion grynhoi eu profiad er mwyn cadw at y cyfrif geiriau cyfyngedig?
5. Beth ddylwn i ei wneud am 'dystiolaeth'?
6. Sut ydym ni'n gwybod sut beth yw 'da'?
7. Onid ydyn nhw'n creu mwy o waith na CV traddodiadol?
8. Onid yw'n cynnwys yr un deunydd â llythyr eglurhaol?
9. Ydy'r arianwyr yn rhoi gwerth ar y cyfraniadau ehangach hyn mewn gwirionedd?
10. Nid yw'n deg bod y meini prawf wedi newid.
11. Sut alla'i siarad am effaith pan rwy'n gwneud popeth fel rhan o dîm?
12. Beth ydym ni i fod i'w wneud am NCV tîm?
13. Sut ydym ni'n dod o hyd i'r amser ar gyfer y gweithgareddau ychwanegol hyn?
14. Beth ddylwn i ei wneud os nad oes gen i dystiolaeth ar gyfer pob modwl?

**Onid yw'r fformat hwn yn ffafrio'r rheiny sydd â Saesneg brodorol?**
Mae'n debygol y bydd y rheiny sy'n gyfarwydd â'r idiom Saesneg yn teimlo'n fwy cyffyrddus wrth ysgrifennu paragraff hirach amdanyn nhw eu hunain a'u gwaith. Awgrymir bod y rhai nad ydynt yn siaradwyr Saesneg brodorol yn gweithio gydag un o'u cymheiriaid; neu efallai yn defnyddio offer AI i'w cefnogi wrth ysgrifennu; a defnyddio fformat fel yr un a ddarperir gan strwythur Rhydychen, i'w helpu gyda'u gwaith.

**Onid dim ond brolio yw e?**
Mae sgyrsiau gydag academyddion o ystod eang o gymunedau yn awgrymu bod yna ragdueddiadau diwylliannol yn erbyn yr hyn a ystyrir yn 'frolio'. Defnyddiwch strwythur Rhydychen, i gyflwyno eich gwaith mewn ffordd mor ffeithiol â phosibl; gweithiwch gydag un o'ch cymheiriaid i'ch helpu i ddathlu eich cyraeddiadau; a chadwch restr barhaus o'ch holl weithgareddau er mwyn eich helpu i gofio popeth rydych wedi'i wneud.

*Cyf: EUROPEAN RESEARCH COUNCIL – Narrative CVs – a good idea? (europa.eu) Trafoda'r Athro Anja Leist y pryderon hyn*

**Sut all y naratifau hyn fod mor wrthrychol â CV traddodiadol?**

Mae yna ddigonedd o dystiolaeth i ddangos nad yw'r CV 'traddodiadol' yn wrthrychol. Dengys ymchwil bod cynnwys enw ar CV yn creu rhagfarn o ran hil a rhywedd. Yn aml, bydd ymchwilwyr rhyngwladol yn defnyddio gwahanol dempledi gan gynnwys gwybodaeth sy'n peri rhagfarn (e.e. ffotograffau, statws priodasol neu gast). Bydd rhai ymgeiswyr wedi cael llawer o gymorth wrth ysgrifennu ceisiadau, ac eraill ond ychydig, yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael yn eu sefydliadau.

*Cyf:* *Is there a glass ceiling for ethnic minorities to enter leadership positions? Evidence from a field experiment with over 12,000 job applications* *(ScienceDirect)*
*The Impact of Gender on the Review of the Curricula Vitae of Job Applicants and Tenure Candidates: A National Empirical Study | Sex Roles* *(springer.com)*

**Sut mae disgwyl i uwch academyddion grynhoi eu profiad er mwyn cadw at y cyfrif geiriau cyfyngedig?**

Nod yr NCV yw ceisio newid yr hyn sy'n cael ei werthfawrogi ym maes ymchwil academaidd trwy ystyried yr ystod gyfan o weithgareddau sy'n rhan o waith academaidd.Nid bychanu'r safon flaenorol o ran metrigau cyhoeddi yw'r diben, ac mae'n bosibl crynhoi'r rheiny yn effeithiol. Sicrhewch fod popeth a restrwch yn briodol i'r cais am gyllid dan sylw; cyfeiriwch yn glir at 'uchafbwyntiau'; byddwch yn glir ynglŷn â pham eich bod yn cynnwys profiadau penodol. Cofiwch mai un rhan yn unig o'r broses ymgeisio yw'r NCV.

**Beth ddylwn i ei wneud am 'dystiolaeth'?**

Dengys cyfarfodydd gydag ymchwilwyr bod llawer ohonynt yn poeni am ansawdd y dystiolaeth y gallant ei defnyddio i ategu eu honiadau mewn NCV. Lle bo'n bosibl, fel y dangosir yn strwythur Rhydychen, defnyddiwch ffeithiau a ffigyrau i ategu eich honiad. Ystyriwch p'un a fyddech yn amddiffyn eich tystiolaeth pe bai rhywun yn eich holi amdani mewn cyfweliad. Cofiwch atgoffa eich hun mai dim ond rhan o gais cyffredinol yw'r NCV, nid yr holl beth. Wrth i chi gofnodi eich gweithgarwch (#2), cofiwch ystyried pa dystiolaeth y gallech chi ei defnyddio'n ddiweddarach ac efallai ymgorffori mecanweithiau adborth.

**Sut ydym ni'n gwybod sut beth yw 'da'?**

Mae arianwyr yn dweud yn glir nad oes arnynt eisiau hysbysebu enghreifftiau o CV ar-lein, am eu bod yn ofni y byddai hyn yn arddweud beth y 'ddylai' NCV ei gynnwys. Hyd yma, mae canllawiau ar gyfer adolygwyr yn brin hefyd. Defnyddiwch y samplau gan FNR (ariannwr cenedlaethol Luxembourg). Edrychwch ar y platfform rhannu cymheiriaid newydd a grëwyd gan Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Marie Curie, gydag arian gan bartneriaid rhyngwladol. Siaradwch gyda gweinyddwyr ymchwil eich sefydliad er mwyn cael manylion cyswllt ysgrifenwyr mwy profiadol.
*Cyf:* *Time to rethink the scientific CV* *(nature.com)*
*PEPCV (mariecuriealumni.eu)*

**Onid ydyn nhw'n creu mwy o waith na CV traddodiadol?**
Yn sicr, y tro cyntaf y gwnewch chi ysgrifennu NCV, fe fydd yn cymryd amser i lunio drafft. Dengys ymchwil gychwynnol gan FNR bod dros hanner yr ymgeiswyr yn cymryd mwy o amser ar y cychwyn, ond dangosodd holiadur dilynol bod yr amser hwnnw wedi lleihau. Awgryma ymchwilwyr bod peth o'r deunydd ar gael yn barod, er enghraifft mewn cais am gymrodoriaeth yr AAU, neu wrth baratoi ar gyfer sgyrsiau datblygu gyrfa. Bydd angen i chi dreulio amser yn diweddaru'r NCV ar gyfer pob cais gwahanol, i gynnwys profiadau newydd neu fwy perthnasol.

**Onid yw'n cynnwys yr un deunydd â llythyr eglurhaol?**
Yn gyffredinol, mae CV yn ymwneud â'ch 'cymhwyster', yn yr ystyr ehangaf, ar gyfer rôl, lle bo llythyr eglurhaol yn cynrychioli eich 'symbyliad' ar gyfer rôl. Fel arfer, mae datganiad personol yn cwmpasu'r ddau beth yma. Bydd angen i chi wneud penderfyniad ynghylch sut rydych yn cyflwyno tystiolaeth ar gyfer yr holl bethau sydd eu hangen ar yr ariannwr neu gyflogwr – er enghraifft fe allech chi siarad am eich sgiliau ymchwil ym Modwl 1, eich sgiliau gwaith tîm ym Modwl 2. Yna, gall eich llythyr eglurhaol fod yn grynodeb o'r rhain ac yna defnyddiwch y blwch i egluro'n glir pam bod y cyfle hwn yn eich gweddu chi. Darllenwch am beth mae'r ariannwr neu gyflogwr yn gofyn yn ofalus iawn.

**Ydy'r arianwyr yn rhoi gwerth ar y cyfraniadau ehangach gymaint â'r 'ymchwil' mewn gwirionedd?**
Nes bod gwerthusiad mwy cadarn yn cael ei gynnal ar yr NCVs sy'n llwyddo i ennill grantiau, does dim ffordd i ni wybod hyn. Bydd newid y ffordd caiff ymchwilwyr eu dewis yn cymryd amser a newid mewn diwylliant ac rydych chi eich hunain yn rhan o hynny. Bydd adnoddau ar gyfer hyfforddi adolygwyr yn eu hannog i ystyried cyfnod gyrfa wrth asesu ceisiadau.

**Nid yw'n deg bod y meini prawf wedi newid.**
Mae ymchwilwyr wedi arfer gyda'r syniad bod eu gwaith yn cael ei farnu ar sail metrigau gweladwy fel cyhoeddiadau neu grantiau. Mae'r NCV i weld yn awgrymu bod disgwyl mwy fyth erbyn hyn a bod y gwaith a wnaed wrth wneud y cyhoeddiadau bellach wedi mynd yn wastraff. Er ei fod yn demtasiwn credu nad yw hyn yn deg, mae'n bwysig hefyd cydnabod nad yw llawer o academyddion da yn ennill cyllid na dyrchafiadau am resymau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb strwythurol. Ystyrir bod yr NCV yn ffordd o newid natur gystadleuol iawn ymchwil academaidd er mwyn bod yn fwy cynhwysol o ran gwahanol fathau o ymchwilwyr.

*Cyf: er enghraifft missing-elements-report.pdf (rsc.org)*

**Sut ydw i'n siarad am effaith pan rwy'n gwneud popeth yn rhan o dîm?**
Mae rhai ymchwilwyr yn anghyfforddus gyda hawlio effaith, er mwyn gallu darparu tystiolaeth yn eich NCV. P'un a yw hynny am ei fod yn anodd ei fesur (gweler #5 uchod) neu am ei fod yn anodd dangos yn union beth yw eich cyfraniad chi, gall deimlo'n annidwyll hawlio rhywbeth yn unigol. Nid oes union ateb i hyn. Ceisiwch fod mor glir ag y gallwch o ran eich cyfraniad chi, gan feintioli hynny lle bo modd.

Disgrifiwch yn glir ac yn gryno beth oedd gwaith y tîm cyfan os oes raid. Os mai eich gwaith chi sydd wedi galluogi i'r tîm lwyddo, ymfalchïwch yn hynny.

**Beth a wnawn ni am NCV timau?**

Cwestiwn da! Mae'n ymddangos mai'r prif gyngor yw bod yn eithriadol o glir ynglŷn â pham eich bod yn cynnwys cyfraniadau aelod penodol o'r tîm ym mhob adran - defnyddiwch frawddeg gyflwyno i wneud hynny. Treuliwch gymaint o amser ag y gallwch – caniatewch ragor o amser oes modd – i weithio gyda'ch gilydd fel tîm i lawrlwytho'r holl gyfraniadau posibl ac yna dod o hyd i ffordd i rannu'r rhain yn deg. Sicrhewch fod pob aelod o'r tîm yn ysgrifennu mewn arddull neu lais tebyg; neu penodwch rywun i olygu'r cyfraniadau fel eu bod mewn arddull tebyg.

Cyf: *Oxford Team NCV guidance*

**Sut ydym ni'n dod o hyd i amser ar gyfer y gweithgareddau ychwanegol hyn?**

Mae rhai ymchwilwyr yn teimlo nad yw eu rheolwyr yn cefnogi amser 'i ffwrdd o' ymchwil. Wrth gwrs mewn gwirionedd, mae'r math o weithgareddau y gellir eu defnyddio'n dystiolaeth mewn NCV i gyd yn rhan o fod yn ymchwilydd. Mae cyfrannu at gyfarfodydd tîm, mentora (hyd yn oed os yw hynny'n anffurfiol), trefnu neu fynychu cynadleddau, i gyd yn elfennau allweddol o yrfa ymchwilydd academaidd. Os ydych yn ôl-ddoethur, cofiwch ei fod yn debygol bod eich sefydliad wedi llofnodi'r Concordat ar gyfer Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr, sy'n caniatáu 70 awr o ddatblygiad proffesiynol y flwyddyn. Defnyddiwch y broses adolygu gyrfa flynyddol i gynllunio gweithgareddau datblygu.

**Beth ddylwn i ei wneud os na fydd gen i dystiolaeth ar gyfer pob modwl?**

Yn gyntaf, peidiwch â phoeni. Rydym yn clywed y pryder hwn yn aml. Dywed arianwyr y gallwch adael modwl yn wag - gweler y dudalen UKRI yma - er nad ydym yn siŵr eto sut farn fydd gan yr adolygwyr ar hyn. Ystyriwch ba dystiolaeth rydych yn ei defnyddio o dan bob pennawd yn ofalus; mae'n bosibl, er enghraifft, y gallech wahanu proses cynhyrchu gwybodaeth a'r cyhoeddiad ei hun a rhoi'r cyntaf o dan Fodwl 1, yn y UKRI R4RI, a'r cyhoeddiad ym Modwl 3. Ystyriwch beth sy'n addas ar eich cyfer chi ar gyfnod eich gyrfa a darparu'r cyd-destun hwnnw ar gyfer yr adolygydd. Er enghraifft, ym Modwl 4, efallai na fyddwch wedi ysgrifennu polisi a fabwysiadwyd gan lywodraeth genedlaethol, ond efallai eich bod wedi gwneud rhywbeth ar gyfer eich cymuned leol. Diolch i Dr Tracy Bussoli ac Anna Favalessafor am awgrymu'r cwestiwn hwn.

Diolch yn fawr i'r **Prosiect Ymchwil Gweithredol ar Ddiwylliant Ymchwil**
Mae ARRC Project Narrative CV FAQs © 2024 gan The ARRC Project, Prifysgol Caergrawnt wedi'i drwyddedu o dan CC BY-NC-SA 4.0